Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

LLEWELYN, THOMAS DAVID ('Llewelyn Alaw'; 1828 - 1879), cerddor

Enw: Thomas David Llewelyn
Ffugenw: Llewelyn Alaw
Dyddiad geni: 1828
Dyddiad marw: 1879
Rhiant: Martha Llewelyn
Rhiant: David Llewelyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Barddoniaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 25 Mehefin 1828 yn Llwydcoed, Aberdâr, mab David a Martha Llewelyn. Dysgodd ganu'r delyn yn blentyn ac yr oedd yn chwaraewr da yn 8 oed. Yn 11 oed aeth i weithio gyda'i dad i lofa. Yn 1851 gadawodd y lofa, a rhoddodd ei holl amser i gerddoriaeth, barddoniaeth, a llenyddiaeth. Efe oedd telynor teulu Aberpergwm a'r arglwydd Aberdâr. Cafodd hanner y wobr am draethawd ar ' Hanes Aberdâr,' a chyhoeddwyd ef yn y gyfrol *Gardd Aberdâr*. Enillodd y wobr yn eisteddfod genedlaethol Llangollen, 1858, am y 'Casgliad gorau o Alawon anghyhoeddedig,' a chafodd amryw wobrwyon eisteddfodol ar ganu'r delyn. Bu farw 13 Awst 1879 a chladdwyd ef ym mynwent Hen Dy Cwrdd, Aberdâr.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad* (1896)

R. Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau* (Caernarfon 1913)

Darllen Pellach

Archifau LlGC: NLW MS 331D: Llewelyn Alaw's Collection of Unpublished Welsh Airs

Erthygl Wicipedia: Llewelyn Alaw

'19th century harpist from Trecynon celebrated in new book', Nation.Cymru, 8 Gorffennaf 2024

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Llewelyn Alaw yn Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers

Archifau LlGC: Llewelyn Alaw Manuscripts: NLW MSS 329B a 337D

Wikidata: Q20734427

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Griffith, R. D., (1953). LLEWELYN, THOMAS DAVID ('Llewelyn Alaw'; 1828 - 1879), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 23 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLEW-DAV-1828

Copïo'r cliptrwdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government